



(Adobe Stock, 2026)

Arferion Cynhwysol mewn Ysgolion: Cefnogi Ddysgwyr o Gefndiroedd Cymdeithasol Gwahanol Arweiniad Ymarferol i Athrawon



Jessica Davies - 2502537 - ECES4013C
30ain o Fawrth, 2026

(Bliss, n.d)

Mae'r pamffled hwn yn cynnig arweiniad ymarferol i athrawon er mwyn sicrhau bod arferion cynhwysol yn cael eu hymgorffori o fewn eu hysgolion. Yn bennaf, bydd yn canolbwyntio ar ddysgwyr o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, gyda ffocws arbennig ar blant sy'n byw yng Nghymru. Mae arferion cynhwysol yn sicrhau bod addysg ar gael i bawb, gan gydnabod bod pob plentyn yn unigryw ond bod gan bob un yr hawl i gael ei drin yn deg, waeth beth fo'i gefndir neu'i allu (Learning Journals, 2021).

Yn ystod 2023/24, roedd 4.5 miliwn o blant yn byw mewn tldi yn y Deyrnas Unedig (Joseph Rowntree Foundation, 2024). Mae'r grŵp hwn o ddysgwyr yn cael ei effeithio gan amrywiaeth o ffactorau megis ansicrwydd bwyd a theuluoedd sy'n cael trafferth fforddio costau

hanfodol fel dillad, trafndiaeth a biliau. Mae'n hollbwysig deall sefyllfaoedd y plant hyn er mwyn sicrhau bod eu profiadau addysgol yn deg, yn gynhwysol ac yn eu galluogi i ffynnu yn eu hamgylchedd dysgu.

Mae hyn yn ein harwain at rôl yr ymarferwyr yn enwedig athrawon. Wrth ystyried ystadegau tldi plant, mae'n golygu bod naw o blant allan o ddosbarth cyfartalog o dri deg yn cael eu gadael i lawr gan y system (National Education Union, 2025). Mae athrawon dosbarth, felly, yn chwarae rôl hollbwysig wrth sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg y mae'n ei haeddu, mewn amgylchedd diogel, cefnogol ac yn llawn cyfleoedd i gymryd rhan yn yr un modd â'u cyfoedion.



Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn aml yn mynd heb anghenion sylfaenol fel bwyd, dillad a chartref cynnes. Gall y diffygion hyn effeithio arnynt mewn sawl ffordd, gan gynnwys eu hiechyd, eu lles emosiynol a'u gallu i ganolbwyntio yn yr ysgol. Ym 2023/24, roedd 11% o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn byw mewn aelwydydd ag ansicrwydd bwyd, gan gynnwys 18% o blant (Francis-Devine, Malik and Roberts, 2024). Wrth edrych ar y ffigurau hyn, gwelwn fod nifer sylweddol o blant yn dibynnu ar ysgol am eu pryd bwyd mwyaf sylweddol o'r dydd.

mae costau cudd mewn ysgolion— megis tripiâu, clybiau a gweithgareddau yn gallu arwain at blant yn colli allan oherwydd cyfyngiadau ariannol (Child Poverty Action Group, 2024). Gall ffactorau fel diffyg cwsg, anhawster teithio i'r ysgol a dillad ysgol amhriodol effeithio'n ddifrifol ar hyder ac ymddygiad plant (Barnardo's, 2024).

Yng Nghymru, mae tua un o bob tri phlentyn yn byw mewn tlodi (Children in Wales, 2024). Mae hyn yn golygu bod llawer o blant yn cael eu heffeithio gan ddiffyg mynediad at lyfrau, technoleg a lle tawel i astudio yn eu cartrefi. Yn ogystal,





Fel pob unigolyn, mae gan blant sy'n byw mewn tlodi eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain. Yn aml, maent yn datblygu strategaethau ymdopi cryf oherwydd eu hamgylchiadau, gan ddysgu gwneud y gorau o'r hyn sydd ganddynt mewn sefyllfaoedd na ddylai unrhyw blentyn fod ynddynt. Yn ogystal, mae llawer yn cael eu hystyried yn greadigol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt i chwarae a dysgu, gan nad oes ganddynt wastad degannau newydd neu adnoddau modern (UK Data Service, 2024).

O ran gwendidau, mae tlodi'n cael effaith amlwg ar ddatblygiad emosiynol. Mae plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn fwy tebygol o brofi gorbryder a hunan-barch isel. Pan yn ifanc, nid ydynt yn deall pam mae eu bywydau'n wahanol i fywydau eraill, ond wrth iddynt dyfu, maent yn dod yn fwy ymwybodol o'r economi a'r realiti ariannol o'u hamgylch (Gearon, 2025).

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi bum gwaith yn fwy tebygol o fod yn anhapus na phlant nad ydynt yn profi tlodi. Gall problemau iechyd meddwl effeithio ar eu hymddygiad yn yr ysgol a gartref, ond yn aml dim ond yr ymddygiad sy'n cael ei weld a'i dargedu yn yr ysgol. Mae byw mewn tlodi hefyd yn cynyddu'r risg o blant gymryd rhan mewn ymddygiadau peryglus fel defnyddio sylweddau, gweithgareddau troseddol neu adael yr ysgol yn gynnar (FastForward, 2025). Yn ogystal, gall plant brofi ansicrwydd tai, symud o dŷ i dŷ, dibynnu ar fanciau bwyd oherwydd costau byw cynyddol, neu hyd yn oed gymryd cyfrifoldeb am ofalu am frodyr a chwiorydd iau (Souza, 2025). Nid yw pawb yn ystyried sut mae'r plant hyn yn teimlo, ond mae athrawon a staff ysgol yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau cynhwysiant ac empathi tuag at bob plentyn.

Mae eithrio cymdeithasol yn effeithio'n ddwfn ar y grŵp hwn o ddysgwyr. Mae mwy na chwarter o blant o'r teuluoedd tlotaf yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio oherwydd nad yw eu rhieni'n gallu fforddio costau ysgol (The Children's Society, 2020). Mae hyn yn gwneud i blant deimlo'n "wahanol", gan nad oes ganddynt yr un cyfleoedd neu'r un dillad â'u cyfoedion. Yn aml, byddant yn tynnu'n ôl o sefyllfaoedd cymdeithasol neu addysgol i beidio â rhoi pwysau ychwanegol ar eu teulu (BBC Children in Need, 2023). Yn y cyd-destun ehangach, mae costau byw cynyddol yn effeithio ar bopeth. Nid yw'r broblem yn ymwneud â fforddio'r gweithgaredd yn unig, ond hefyd â'r gallu i gyrraedd y lleoliad, gan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn ddud i lawer o deuluoedd. Mae'r holl ffactorau hyn yn cyfuno i greu rhwystrau sylweddol i blant sy'n byw mewn tlodi, gan effeithio ar eu hyder, eu hymdeimlad o berthyn a'u cyfleoedd i lwyddo.



Mae'r byd wedi'i strwythuro mewn ffordd lle nad yw pob cyfle ar gael i bawb, ac o ganlyniad mae rhai unigolion yn colli allan tra bod eraill yn gallu symud ymlaen heb drafferth. O fewn addysg, mae diffyg cyllid yn creu rhwystrau sylweddol i gynhwysiant. Mae toriadau'n effeithio ar allu ysgolion i brynu adnoddau, darparu digon o staff, a chynnig y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar blant ac ar ymarferwyr. Dengys ymchwil fod dros 50% o athrawon yn y DU yn defnyddio eu harian eu hunain i brynu adnoddau dosbarth, gan nad oes digon o gyllideb i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer dysgu o ansawdd uchel (FE News, 2023).

Er bod polisiâu'n bodoli i gefnogi plant sy'n byw mewn tlodi neu blant ag anghenion ychwanegol, nid yw pob polisi'n darparu'r lefel o gymorth sydd ei hangen i sicrhau bod pob plentyn yn gallu dysgu'n deg.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymwybyddiaeth o dlodi plant wedi cynyddu, ac mae nifer o bolisiau newydd wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r mater. Fodd bynnag, mae bylchau'n parhau. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn trafod toriadau budd-dal ar yr un pryd ag y mae 4.5 miliwn o blant yn byw mewn tlodi, gyda rhagolygon yn awgrymu y gallai'r ffigur hwn godi i 4.8 miliwn erbyn 2029/30 — ac mae'r amcangyfrifon hyn cyn i'r toriadau gael eu gweithredu (Wenham et al., 2025). Ar yr un pryd, mae rhai datblygiadau cadarnhaol. Mae nifer yr ysgolion sydd â mynediad at wasanaethau cefnogi wedi cynyddu wrth i'r Llywodraeth fuddsoddi mwy yn y sector. Ym 2025, buddsoddwyd bron £1.5 miliwn yn rhaglenni fel RISE Attendance a Behaviour Hubs i gefnogi ysgolion sy'n ceisio taclo materion presenoldeb ac ymddygiad (The Education Hub, 2025).

Er bod hyn yn gam ymlaen, mae'n dal yn amlwg bod angen mwy o adnoddau a pholisïau cynhwysol i sicrhau nad yw plant sy'n byw mewn tlodi yn cael eu gadael ar ôl gan y system addysg. Yn amgylcheddol, gall ffactorau fel tai, trafnidiaeth, bwyd a chymunedau greu rhwystrau sylweddol i blant sy'n byw mewn tlodi. Efallai bod rhai plant yn byw mewn tai oer neu â llwydni, neu heb fynediad at wres digonol. Mae hyn yn effeithio ar gwsg, iechyd a'r gallu i ganolbwyntio yn yr ysgol. Yn aml, mae tai'n orlawn, gyda sawl plentyn yn rhannu ystafell neu hyd yn oed yn cysgu yn yr ystafell fyw. Pan anfonir gwaith cartref adref, nid oes gan y plant hyn le tawel i astudio, gan arwain at wrthdyniadau a phryder ynghylch methu â chyflawni tasgau. Gall hyn greu sefyllfa annheg pan fydd plant yn cael eu cosbi neu eu beirniadu am beidio â gwneud gwaith cartref, heb ystyried eu hamgylchiadau (Evans, 2026).



Mae rhwystrau agweddol hefyd yn chwarae rhan bwysig. Daw'r rhwystrau hyn o agweddau, credoau a rhagfarnau unigolion eraill. Nid oes dau unigolyn yr un fath, ond mae stigma ynghylch tlodi yn parhau i fod yn broblem. Yn aml, mae disgwyliadau o blant sy'n byw mewn tlodi yn is na disgwyliadau o'u cyfoedion, gan fod tystiolaeth wedi dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi neu ardaloedd difreintiedig yn perfformio'n is ar gyfartaledd (Harker, 2013). Mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith tlodi yn gallu arwain at farnu neu feio'r plentyn neu'r teulu, yn hytrach na deall yr amgylchiadau sy'n siapia eu profiadau.

Yw athrawon wastad yn gallu darparu'r amgylchedd cynhwysol y maent yn anelu ato. Mae rhai athrawon yn teimlo diffyg hyder wrth daclo materion cymhleth sy'n ymwneud â thlodi, neu'n teimlo nad ydynt yn ddigon gwybodus i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng (BBC News, 2018).

Yn ogystal, mae rhwystrau ar lefel ymarferwyr yn effeithio ar gynhwysiant. Nid oes gan bob athro fynediad at yr hyfforddiant angenrheidiol i ddeall profiadau plant sy'n byw mewn amgylchiadau heriol. Yn ogystal, mae costau cudd ac adnoddau cyfyngedig yn golygu nad



Mae nifer o strategaethau ar gael sy'n fuddiol i blant sy'n byw mewn tlodi. Yn y pamffled hwn, trafodir tri dull allweddol: Strategaeth Tlodi Plant Cymru gan y Llywodraeth, y Big Bocs Bwyd, a dull ychwanegol i'w nodi. Mae'r ymarferion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn dangos sut y gall ysgolion a'r Llywodraeth weithio gyda'i gilydd i greu amgylcheddau dysgu cynhwysol.

Ymarfer 1: Strategaeth Tlodi Plant Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried tlodi fel un o'i phrif flaenoriaethau, gan nad yw'n dderbyniol i unrhyw blentyn orfod mynd heb anghenion sylfaenol. Mae'r strategaeth yn ystyried sut mae costau byw cynyddol wedi effeithio'n anghymesur ar deuluoedd sy'n agored i niwed, ac yn cydnabod bod tlodi'n fater cymhleth sy'n gofyn am ymateb cydlynol. Mae'r egwyddorion craidd yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r

Plentyn, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at ddiogelwch, addysg, iechyd a safon byw ddigonol.

Mae'r strategaeth yn cael ei disgrifio fel dull "Llywodraeth gyfan", sy'n golygu bod pob adran berthnasol yn cyfrannu at y gwaith o gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mae'r dull yn seiliedig ar dri cham: atal teuluoedd rhag cwmpo i dlodi, lliniaru effaith tlodi ar y rhai sy'n ei brofi, a chefnogi teuluoedd i symud allan o dlodi drwy addysg, cyflogaeth deg a datblygu sgiliau. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi, gan bwysleisio nad yw tlodi'n ganlyniad i un ffactor ac nad yw'n deg beio unigolion am amgylchiadau sydd fel arfer y tu hwnt i'w rheolaeth (Llywodraeth Cymru, 2025).

O safbwynt y dysgwyr, mae'r strategaeth yn darparu buddion uniongyrchol. Ers Medi 2024, mae pob disgybl yng Nghymru yn derbyn prydau ysgol am ddim, gan leihau costau cudd addysg a sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at fwyd maethlon. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n profi ansicrwydd bwyd. Mae iechyd meddwl hefyd yn elfen ganolog, gyda thystiolaeth yn dangos bod un o bob chwech o bobl ifanc yn profi rhyw fath o broblem iechyd meddwl (Health Care Research Wales, 2026). Trwy'r strategaeth, mae ysgolion yn cael gwell mynediad at wasanaethau cefnogi, gan alluogi disgyblion i drafod eu hemosiynau mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Yn ogystal, mae'r strategaeth yn cynnwys camau i wella tai ac atal digartrefedd, gan fod byw mewn tai ansafonol yn gallu cael effaith uniongyrchol ar iechyd a lles plentyn.

Ymarfer 2: Big Bocs Bwyd

Mae Big Bocs Bwyd yn brosiect cymunedol sy'n gweithredu ar sail "talw beth allwch chi". Mae tua 68 o ysgolion yng Nghymru bellach yn cymryd rhan yn y fenter hon. Mae'r prosiect yn galluogi plant i ddysgu am dyfu bwyd, coginio a bwyta'n iach, gan integreiddio'r gweithgareddau hyn i'r cwricwlwm drwy dyfu llysiau a ffrwythau sy'n cael eu rhoi yn y "siop". Mae'r dull hwn yn hyrwyddo cyfrifoldeb, sgiliau bywyd a chydweithio, ac yn lleihau straen ar deuluoedd sy'n profi ansicrwydd bwyd gan fod bwyd iach ar gael iddynt heb bwysau ariannol. Mae'r prosiect yn cyd-fynd â'r pedwar diben o'r Cwricwlwm i Gymru, gan ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol, hyderus, cyfrifol ac yn barod i gyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau. I blant sy'n byw mewn tldi, mae Big Bocs Bwyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol a datblygu ymdeimlad o berthyn. Mae'r teuluoedd yn ymweld â'r "siop" gyda'i gilydd, gan gryfhau cysylltiadau

cymunedol a lleihau stigma sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd bwyd (Big Bocs Bwyd, 2018).

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn chwarae rôl ganolog wrth sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg, waeth beth fo'u cefndir, eu gallu, eu lliw croen neu unrhyw nodwedd bersonol arall. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod pob unigolyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd, boed hynny mewn addysg, mynediad at ofal iechyd neu gyflogaeth. O fewn addysg, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion asesu effaith eu polisiau ar grwpiau sy'n wynebu anfantais, megis plant sy'n byw mewn tldi, dysgwyr ag anableddau neu blant o wahanol ethnigrwydd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cefnogi'r ymarferion cynhwysol a drafodwyd yn gynharach yn y pamffled.

Trwy osod dyletswydd ar ysgolion a sefydliadau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal, mae'n sicrhau bod mentrau fel Big Bocs Bwyd, prydau ysgol am ddim a chefnogaeth iechyd meddwl yn cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n gwella ansawdd bywyd plant.

Yn ei hanfod, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ceisio lleihau'r stigma sy'n aml yn gysylltiedig â thldi. Mae'n annog pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i normaleiddio cefnogaeth gymunedol ac i greu amgylcheddau lle mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod polisiau ysgol yn deg, yn gynhwysol ac yn sensitif i'r rhwystrau y gall dysgwyr eu hwynebu. Trwy wneud hyn, mae'r Ddeddf yn cyfrannu at adeiladu cymdeithas fwy cyfartal lle mae pob plentyn yn cael y cyfle i ffynnu (Government Equalities Office, 2011).



Mae strategaethau cynhwysol yn gymharol syml i'w gweithredu o fewn ysgolion, cyn belled â bod pawb yn ymrwymo i'w sefydlu a'u cynnal. O safbwynt bywyd bob dydd, mae dileu costau cudd yn gam pwysig iawn. Gall hyn gynnwys sicrhau bod yr holl adnoddau sydd eu hangen ar ddisgyblion ar gael yn yr ysgol, fel nad oes disgwyl i deuluoedd brynu deunyddiau ychwanegol. Mae hyn yn lleihau'r straen ariannol ar rieni ac yn osgoi embaras neu stigma i blant. Mae mynychu ysgol yn ddigon costus i rai teuluoedd fel y mae, felly pan fo'n bosibl, dylai ysgolion geisio peidio â gofyn am gyfraniadau ariannol diangen.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r teulu yn hollbwysig. Mae llawer o ysgolion bellach yn defnyddio Class Dojo, sef platfform cyfathrebu sy'n galluogi athrawon a theuluoedd i rannu negeseuon a lluniau ar unrhyw adeg.

Mae'r system hefyd yn cynnig cyfieithu i dros 190 o ieithoedd, gan ei gwneud yn arf cynhwysol sy'n sicrhau bod pob teulu, waeth beth fo'u hiaith neu'u cefndir, yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r ysgol ac yn gwybod beth sy'n digwydd o fewn y dosbarth (Class Dojo, 2019). Mae cyfathrebu clir ac agored fel hyn yn gwneud i rieni deimlo bod yr ysgol yno i'w cefnogi, ac yn cryfhau ymddiriedaeth rhwng y cartref a'r ysgol.

Gall ysgolion hefyd weithio'n agos gyda staff lles neu gydlynwyr sy'n arbenigo mewn meysydd penodol er mwyn nodi anghenion unigol disgyblion. O ran monitro, mae casglu tystiolaeth yn rhan hanfodol o ymarfer cynhwysol. Gall hyn gynnwys cadw nodiadau dyddiol, defnyddio llyfrau arsylwi neu systemau sy'n benodol i bob plentyn.

Mae cofnodi arsylwadau yn gallu helpu athrawon i adnabod patrymau ymddygiad neu anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan alluogi cefnogaeth fwy effeithiol. Yn ogystal, mae cofnodion fel y gofrestr yn hollbwysig i fonitro presenoldeb a nodi unrhyw bryderon cynnar ynghylch absenoldebau neu newidiadau mewn ymddygiad.



I grynhoi, mae'r pamffled hwn wedi dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi, fel unrhyw blentyn arall, yn cael eu heffeithio gan amrywiaeth o ffactorau sy'n siapio eu hiechyd, eu lles, eu profiadau ysgol a'u cyfleoedd i dyfu'n ddysgwyr uchelgeisiol. Mae'r amgylchedd y maent yn tyfu ynddo yn chwarae rôl hollbwysig yn hyn, ac felly mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn creu lleoliadau sy'n ddiogel, yn empathig, yn deg ac yn wirioneddol gynhwysol. Pan fo hyn yn digwydd, gall ysgolion fod yn leoedd sy'n grymuso pob plentyn i ffynnu.

Fel gwlad, mae Cymru wedi ymrwymo i daclo tlodi plant drwy gyflwyno strategaethau cadarn fel Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r fenter Big Bocs Bwyd. Mae'r ddwy strategaeth yn dangos sut y gall polisïau cenedlaethol a mentrau cymunedol weithio gyda'i gilydd i leihau effaith tlodi ar fywydau plant.

Yn ogystal, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol sy'n sicrhau tegwch ac ymateb sensitif i anghenion pob plentyn, gan weithio ochr yn ochr â pholisïau ysgol i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.

O safbwynt ysgolion, mae'n hollbwysig meithrin perthynas gadarnhaol â theuluoedd a sicrhau cyfathrebu agored rhwng athrawon, dysgwyr a rhieni. Pan fydd ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r cartref ac yn gweithredu strategaethau cynhwysol bob dydd, maent yn creu amgylchedd lle mae pob plentyn yn cael ei gefnogi'n llawn.

Trwy barhau i ddatblygu polisïau cynhwysol, gweithredu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chryfhau arferion ysgol sy'n rhoi lles a thegwch wrth wraidd pob penderfyniad, gallwn symud tuag at system addysg sy'n galluogi pob plentyn—waeth beth fo'u hamgylchiadau—i gael yr addysg a'r dyfodol gorau posibl.



Rhestr Cyfernod

Access Records Management. (2019). Record keeping in schools: what you need to know. [online] Available at: <https://accessrecordsmanagement.co.uk/record-keeping-in-schools/>.

Barnardos (2024). How poverty makes it harder for children and young people to go to school. [online] Barnardo's. Available at: <https://www.barnardos.org.uk/blog/how-poverty-makes-it-harder-children-and-young-people-go-school>.

BBC Children In Need (2023). 'I Can't Afford It' - How Poverty Can Lead to Exclusion and Isolation. [online] BBC Children in Need. Available at: <https://www.bbcchildreninneed.co.uk/changing-lives/our-latest-on-the-cost-of-living-crisis/i-cant-afford-it-how-poverty-can-lead-to-exclusion-and-isolation/>.

BBC News (2018). Teachers 'need help' tackling poverty impact on education. BBC News. [online] 30 May. Available at: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-44295465>.

Big Bocs Bwyd (2018). Home. [online] Big Bocs Bwyd. Available at: <https://bigbocsbwyd.co.uk/>.

Child Poverty Action group (2024). The Effects of Poverty. [online] Child Poverty Action Group. Available at: <https://cpag.org.uk/child-poverty/effects-poverty>.

Children in Wales (2024). Poverty and children's rights. [online] Childreninwales.org.uk. Available at: <https://www.childreninwales.org.uk/news/poverty-and-childrens-rights/>.

ClassDojo (2019). Learn all about ClassDojo. [online] ClassDojo. Available at: <https://www.classdojo.com/en-gb/?redirect=true>.

Cyngor Sir Gar (2019). Universal Primary Free School Meals and Free School Meals - Carmarthenshire County Council. [online] Gov.wales. Available at: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/council-services/education-schools/school-meals/free-school-meals/>.



Evans , Gary.W. (2026). Shibboleth Authentication Request. [online] Oclc.org. Available at: <https://research-ebSCO-com.uwtsd.idm.oclc.org/c/onvpsy/viewer/pdf/a7d5of2hen?route=details> [Accessed 30 Mar. 2026].

FastForward (2025). Exploring the links between poverty and risk-taking behaviours in young people – Fast Forward. [online] Fastforward.org.uk. Available at: <https://fastforward.org.uk/exploring-the-links-between-poverty-and-risk-taking-behaviours-in-young-people/>.

FE News (2023). New research finds over 50% of education staff spent own money on school supplies | FE News. [online] FE News. Available at: <https://www.fenews.co.uk/social-impact/new-research-finds-over-50-of-education-staff-spent-own-money-on-school-supplies/> [Accessed 29 Mar. 2026].

Francis-Devine, B., Malik, X. and Roberts, N. (2024). Food poverty: Households, food banks and free school meals. commonslibrary.parliament.uk, [online] I(I). Available at: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9209/>.

Gearon, R. (2025). How does poverty affect children's mental health? [online] Action for Children. Available at: <https://www.actionforchildren.org.uk/blog/how-does-poverty-affects-childrens-mental-health/>.

GOV.WALES. (2025). Child Poverty Strategy for Wales: progress report 2025 [HTML] | GOV.WALES. [online] Available at: <https://www.gov.wales/child-poverty-strategy-wales-progress-report-2025-html>.

Government Equalities Office (2011). DEDDF CYDRADDOLDEB 2010: BETH SYDD ANGEN I MI EI WYBOD? CANLLAW CRYNO I'CH HAWLIAU www.adviceguide.org.uk. [online] Available at: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a74bca9e5274a3f93b48665/welsh-your-rights.pdf>.

Harker, L. (2013). Greater Expectations Raising aspirations for our children. [online] Available at: <https://www.ncb.org.uk/sites/default/files/uploads/files/Greater%2520Expectations.pdf>.



Health Care Research Wales. (2026). Research in Wales making a difference to the mental health of Welsh children and young people. [online] Available at: <https://healthandcareresearchwales.org/about/news/research-wales-making-difference-mental-health-welsh-children-and-young-people>.

Joseph Rowntree Foundation (2024). Child Poverty | Joseph Rowntree Foundation. [online] www.jrf.org.uk. Available at: <https://www.jrf.org.uk/child-poverty>.

Learning Journals (2021). What Is Inclusive Practice and Why Does it Matter? [online] Learning Journals. Available at: <https://learningjournals.co.uk/what-is-inclusive-practice-and-why-does-it-matter/>.

National Education Union (2025). Child poverty. [online] NEU. Available at: <https://neu.org.uk/child-poverty>.

Souza, D.R. de (2025). Growing up in a low-income family: Children's experiences. [online] Available at: <https://assets.childrenscommissioner.gov.uk/wpuploads/2025/07/Growing-up-in-a-low-income-family-childrens-experiences.pdf>.

The Children's Society (2020). Effects of Child Poverty . [online] The Children's Society. Available at: <https://www.childrenssociety.org.uk/what-we-do/our-work/ending-child-poverty/effects-of-living-in-poverty>.

The Education Hub (2025). How we're helping children and teachers with their mental health and wellbeing – The Education Hub. [online] Blog.gov.uk. Available at: <https://educationhub.blog.gov.uk/2025/05/how-were-helping-children-and-teachers-with-their-mental-health/>.

UK Data Service (2024). The impacts of poverty on children's social, emotional and behavioural outcomes. — UK Data Service. [online] UK Data Service. Available at: <https://ukdataservice.ac.uk/case-study/impacts-of-poverty-on-children/>.

Wenham, A., Tims, S., Schmuecker, K. and Moore, M. (2025). Three policies to reduce child poverty this parliament. [online] Joseph Rowntree Foundation. Available at: <https://www.jrf.org.uk/child-poverty/three-policies-to-reduce-child-poverty-this-parliament>.